Cenn@d

MEDI 24 2025 — YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* — RHIF 239

# Dathlu a diolch am 80 mlynedd o waith di-flino Cymorth Cristnogol yng Nghymru



Y gynulleidfa yn y Tabernacl



Rowan Williams yn darllen ei gerdd



Andrew Sully, Mari McNeill a Patrick Watt




Posteri ymgyrchu y degawdau olaf

Ar nos Fercher Medi 17 cafwyd noson arbennig yn dathlu 80 mlynedd o waith diflino Cymorth Cristnogol yn gweithredu dros gyfiawnder a thegwch ar gyfer holl drigolion ein byd. Braint oedd cael ymuno gyda ffrindiau o bob rhan o Gymru yn y Tabernacl, Yr Ais yng Nghaerdydd yng nghwmni gwirfoddolwyr, cefnogwyr, arweinwyr eglwysig, cynrychiolwyr o'r enwadau, gwleidyddion, cydweithwyr yn y sector dyngarol, ynghyd â Chyfarwyddwyr ac aelodau Bwrdd Ymddirdiedolwyr Cymorth Cristnogol.

Wedi cyfle i ymgasglu a sgwrsio dros baned cafwyd gair o groeso a gweddi gan weinidog yr eglwys, Rosa Hunt, cyn trosglwyddo'r awennau i Andrew Sully, Cadeirydd gwaith Cymorth Cristnogol yng Nghymru, ynghyd â Mari McNeill, pennaeth y gwaith yng Nghymru. Bu i nifer orymdeithio i mewn i'r capel yn cario byrddau placard, yn dangos posteri ymgyrchu Cymorth Cristnogol a ddefnyddiwyd yn ystod yr 80 mlynedd, a diddorol oedd gweld a chael ein hatgoffa o rai o'r sloganau pwerus hynny. Cafwyd darlleniadau o'r Beibl gan Elenid Jones a Mones Farah, yn cyfeirio at adnodau o Micha 6 a Rhufeiniaid 5.

Wedi gwylio cyfres o ffilmiau byr a chanu emyn, cafwyd sawl myfyrdod pwrpasol. Roedd y tri anerchiad - gan Prif Weithredwr Cymorth Cristnogol, Patrick Watt, a gan Cadeirydd cenedlaethol yr elusen, sef Sarah Mullally, Esgob Llundain, ac hefyd gan Jane Hutt AS ar ran Llywodraeth Cymru i gyd yn afaelgar, yn ddiolchgar am yr hyn a gafwyd dros yr 80 mlynedd, ond hefyd yn cynnwys anogaeth heriol wrth ein hatgoffa am yr anghyfiawnder sy'n parhau yn ein byd ni heddiw.

Cafwyd cyfle hefyd i glywed cerdd bwrpasol Bryniau Caersalem, wedi ei gyfansoddi gan Rowan Williams ac eto cerdd Cymer fi gyda thi gan Grahame Davies, eto wedi ei gyfansoddi yn arbennig ar gyfer y dathliad. Roedd yn drawiadol iawn clywed cerdd Grahame yn cael ei ddarllen gan y bardd ei hun yn y Gymraeg, ac yna gan ddau o blant ifanc o ysgol gynradd yr Eglwys yng Nghymru yng Nghaerdydd yn Saesneg.

Fel cynulleidfa, cawsom gyfle i ymuno yn y gwasanaeth trwy ddatgan yn llafar eiriau o ail-ymrwymiad, wedi eu paratoi gan Cynan Llwyd ar gyfer yr achlysur. Bu i arweinwyr yr enwadau sefyll gyda'i gilydd yn y blaen, tra bod Andrew a Mari yn ein harwain yn y datganiadau. Wedi'r geiriau hyn, cafwyd gweddi rymus ac angerddol gan Nan Wyn Powell-Davies mewn ymateb i'r datganiadau a wnaed.

Diolch am groeso arbennig y Tabernacl, ac am y trefniadau manwl ar gyfer yr achlysur. Cawsom ein hatgoffa bod codi llais yn ganolog i waith Cymorth Cristnogol, a bod cyfrifoldeb arnom ninnau i weithredu er lles cyfiawnder. Rhannwyd amlenni coch i bawb a oedd yn bresennol, a oedd yn cynnwys syniadau gweithredu a chyfrannu.

Heb os roedd yn dda cael bod yno, a braf oedd gweld llawr y capel yn orlawn, yn arwydd o'r parch a'r gwerthfawrogiad sydd gan gynifer ohonom at y gwaith pwysig sy'n cael ei gyflawni ar ein rhan fel eglwysi gan Gymorth Cristnogol. Dymunwn fendith ac arweiniad clir iddynt eto am yr 80 mlynedd nesaf.

*Aled Davies*

Sul Digartrefedd — Tudalen 2

Encil y Weinidogaeth Iachâu, Medi 2025 — Tudalen 4

O'r galon — Tudalen 8

# Sul Digartrefedd – Hydref 5

**Bob blwyddyn, mae Housing Justice Cymru yn cynnal Sul Digartrefedd ar y Sul cyn eu Diwrnod Digartrefedd, sef y Sul cyntaf ym mis Hydref.**

**Y thema ar gyfer eleni yw 'Câr dy gymydog'.**

Gobaith Housing Justice Cymru yw helpu eglwysi a chynulleidfaoedd i ddeall mwy am y problemau sy'n gysylltiedig â digartrefedd drwy wahodd eglwysi i gynnal eu gwasanaeth Sul Digartrefedd eu hunain, naill ai ddechrau Hydref neu ar ddyddiad sy'n fwy cyfleus. Isod mae adnoddau amrywiol i helpu gyda hynny.

Mae Housing Justice Cymru yn gobeithio y bydd cynulleidfaoedd eglwysig, drwy gymryd amser i fyfyrio ar Sul Digartrefedd, yn ystyried beth allen nhw ei wneud yn eu cymunedau eu hunain i leddfu digartrefedd, dioddefaint a thlodi.

**Myfyrdod yn seiliedig ar Luc 17:5–6 gan Lewis Lennon**

Ydych chi erioed wedi cerdded heibio rhywun yn eistedd ar y palmant —
efallai wedi'i lapio mewn sach gysgu,
efallai'n dal cwpan papur —
ac wedi teimlo'r gymysgedd honno o emosiynau?
Tosturi. Euogrwydd. Anobaith.
Efallai hyd yn oed yr awydd i droi'ch golwg i ffwrdd.
Rwy'n gwybod fy mod i.
Ac yn y foment honno, mae'n hawdd teimlo'n annigonol.
Fel petai'n amhosib i ni wneud unrhyw wahaniaeth.

Dyna'n union sut oedd y disgyblion yn teimlo pan alwon nhw ar Iesu,
gan ofyn iddo, 'Cynydda ein ffydd!'

Atebodd Iesu, 'Petai'ch ffydd chi mor fach â hedyn mwstard, gallech chi ddweud wrth y goeden forwydden yma am gael ei chodi o'r ddaear wrth ei gwreiddiau a'i thaflu i'r môr, a byddai'n gwneud hynny!'

Rwy'n caru'r ffaith na dywedodd Iesu, 'Dewch yn ôl pan fydd gennych fwy o ffydd.'
Dywedodd, 'Tyrd â'r ychydig ffydd sydd gennyt, a gwylia beth alla i ei wneud gyda thi.'
Oherwydd mae ffydd fel hedyn mwstard yn fach iawn, ond mae'n fyw ac yn gallu tyfu.
A phan gaiff ei blannu yn nheyrnas Duw, mae'n tyfu'n gyflym.

Mae Salm 37 yn rhoi syniad i ni sut mae ffydd fel hedyn mwstard yn edrych yn ymarferol:
'Trystia'r ARGLWYDD, a gwna beth sy'n dda.
Setla i lawr yn y tir a mwynhau ei ffyddlondeb.






Ceisia ffafr yr ARGLWYDD bob amser,
a bydd e'n rhoi i ti bopeth rwyt ti eisiau.'

Ymddiried — a gwna ddaioni.
Dyna i gyd.
Nid 'datrys popeth'.
Nid 'cario pwysau'r argyfwng tai ar dy ysgwyddau'.
Jyst: ymddiried ynddo Ef — a gwneud rhywbeth.

Ac yma, mae thema Sul Digartrefedd yn siarad mor glir:
**Câr dy gymydog.**
Nid jyst y cymydog sy'n codi llaw arnat dros y ffens.
Ond y cymydog sy'n eistedd ar fainc yn y parc neu wrth yr arhosfan bysiau.
Y cymydog sy'n gorwedd o flaen drws siop mewn gwely cardbord.
Y cymydog sy'n teimlo'n anweledig.

Yn ei lyfr *Stories from the Street*, mae David Nixon yn dweud hyn mewn ffordd bwerus: 'Y bobl fregus yw pregethwyr gorau'r efengyl yn eu cymunedau eu hunain.'

Mae hynny'n golygu nad dim ond angen ein help y mae ein cymdogion ar yr ymylon — yn aml, maen nhw'n cario gwirionedd yr efengyl yn eu straeon eu hunain, yn ein hatgoffa am Iesu ei hun, a ddewisodd uniaethu â'r tlawd, yr alltud, y rhai a anghofiwyd gan gymdeithas.

Oherwydd dyma ddirgelwch y deyrnas:
pan fyddwn yn plannu hadau, Duw sy'n gwneud iddyn nhw dyfu.
Gall un sgwrs arwain at obaith.
Gall un pryd o fwyd arwain at greu cymuned.
Gall un weithred ddewr deithio ymhellach nag y gallwn ni ei freuddwydio.

Felly, efallai nad y cwestiwn i ni heddiw yw, 'Oes gennyf ddigon o ffydd?'
Efallai mai'r cwestiwn yw, 'Beth wna i â'r ychydig ffydd sydd gen i eisoes?'

**Gweddi**
Arglwydd, cyfaddefwn fod ein ffydd
yn teimlo'n wan ar adegau.
Ond rydym yn rhoi ein hedyn mwstard i Ti,
gan ymddiried ynot Ti i'w dyfu.
Dysg i ni weld ein cymdogion
fel yr wyt Ti yn eu gweld nhw —
i garu nid yn unig â geiriau
ond hefyd â gweithredoedd.
Cymer ein camau bach,
a defnyddia nhw i ddod â'th deyrnas yma ar y ddaear,
i bob cymydog sydd heb gartref,
a phob calon sy'n hiraethu am noddfa. Amen.



(parhad ar y dudalen nesaf)

## *Sul Digartrefedd*

*(parhad o dudalen 2)*

BETH ALL EICH EGLWYS EI WNEUD?
FFYRDD ERAILL O HELPU NEU GYMRYD RHAN

Diolch am fyfyrio ar sut y gall eich eglwys 'Garu eich cymydog' a lleddfu digartrefedd, tlodi a dioddefaint yn eich cymuned leol ar y Sul Digartrefedd hwn.

Bydd pob ardal yn wynebu heriau gwahanol ac mae'n bwysig cofio nad oes un ateb sy'n addas i bawb. Serch hynny, mae ymwybyddiaeth gynyddol fod atebion sy'n seiliedig ar y gymuned yn hanfodol i leihau digartrefedd yn ein plith. Mae cynllun Citadel Housing Justice yn enghraifft dda o hyn, ac mae chwilio ar y we yn rhoi llawer o dystiolaeth ymchwil sy'n dangos bod y dull hwn yn effeithiol.

**Felly, beth all eich cynulleidfa ei wneud?**
• Ystyriwch wirfoddoli mewn lloches nos leol, cegin gawl neu brosiect cymunedol fel Citadel. Mae'n debyg y bydd nifer o sefydliadau yn eich ardal yn chwilio am wirfoddolwyr, ac os na allwch ddod o hyd i un, a'ch bod yn credu fod yna angen yn lleol, a allai eich eglwys agor ei drysau i ddarparu bwyd neu wely i rywun sy'n ddigartref?
• Ystyriwch groesawu rhywun sy'n chwilio am loches ac sydd mewn perygl o fod yn ddigartref i'ch ystafell sbâr. Mae Housing Justice Cymru yn cynnal Prosiectau Lletya ac maent bob amser yn chwilio am westeiwyr newydd i agor eu cartrefi i gynnig llety.
• Ystyriwch rentu eich ystafell i rywun sydd newydd gael statws ffoadur am gyfnod o chwe mis drwy Brosiect Llety Ffoaduriaid Housing Justice Cymru.
• Cymerwch ran mewn digwyddiad her neu ddigwyddiad noddi gyda'ch ffrindiau, neu trefnwch gasgliad mewn ysgol i godi arian i elusen digartrefedd o'ch dewis.
• Rhowch rodd i elusen ddigartrefedd o'ch dewis.

**GWEDDI GAN PETER**
Cyn-aelod Staff Cyfiawnder Tai

Dad nefol a chreawdwr pawb a phopeth yn y byd,
deuwn atat heddiw i weddïo dros iechyd meddwl a lles
y rhai sy'n ddigartref ar strydoedd ein gwlad.

**Ymateb: Arglwydd, yn dy drugaredd, clyw ein gweddi.**

Fel Cristnogion cofiwn mai dy blant di ydym ni,
ac mai ninnau yw dwylo a thraed,
clustiau a llygaid dy Fab Iesu Grist,
a ddywedodd ar y mynydd:
'Gwyn eu byd y tlodion, canys eiddynt hwy yw teyrnas Duw.'

**Ymateb: Arglwydd, yn dy drugaredd, clyw ein gweddi.**



Gweddïwn dros y rhai sydd allan ar y strydoedd,
y bydd iddynt dderbyn y gofal a'r cariad cywir
fel y cânt le i'w alw'n gartref.

**Ymateb: Arglwydd, yn dy drugaredd, clyw ein gweddi.**

Gweddïwn dros y rhai sy'n byw ar y strydoedd,
y bydd iddynt dderbyn y gefnogaeth briodol
er mwyn rhoi iddynt feddwl tawel a diogel.

**Ymateb: Arglwydd, yn dy drugaredd, clyw ein gweddi.**

Gweddïwn dros yr holl staff a'r gwirfoddolwyr
sy'n rhoi'n ddidwyll o'u hamser a'u hadnoddau
gan ddangos cariad, gofal a chefnogaeth i'r rhai sy'n ddigartref.

**Ymateb: Arglwydd, yn dy drugaredd, clyw ein gweddi.**

Yn olaf, gweddïwn dros bawb mewn awdurdod a grym,
y bydd iddynt wneud y penderfyniadau cywir
a ddaw â diwedd am byth ar y sefyllfa druenus lle mae pobl yn cysgu ar y stryd.

**Ymateb: Arglwydd, yn dy drugaredd, clyw ein gweddi.**

Gweddïwn hyn oll trwy Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

***Paratowyd yr adnoddau hyn yn Saesneg gan Housing Justice, a'u cyfieithu i'r Gymraeg gan Aled Davies. Am ragor o ddeunyddiau ar gyfer Sul Digartrefedd, ewch i'r wefan:***
***https://housingjustice.org.uk/cymru***

UBC BUW

**Swydd ar gael: Swyddog Pwyllgorau**
Mae Undeb Bedyddwyr Cymru yn eich gwahodd i wneud cais am gyfle cyffrous ar gyfer Swyddog Pwyllgorau mewn cyfnod trawsnewidiol hollbwysig.
Yn y swyddogaeth hon, byddwch yn rhan annatod o dîm ymroddedig sy'n darparu cefnogaeth i waith yr Undeb ar draws Cymru. Prif bwrpas y swydd fydd gweinyddu pwyllgorau'r Undeb.

**Lleoliad**: Caerfyrddin ond gyda hyblygrwydd i weithio gartref. Disgwylir presenoldeb cyson mewn cyfarfodydd yng Nghaerfyrddin ac mewn lleoliadau eraill o bryd i'w gilydd.

Bydd yr ymgeisydd delfrydol yn gwbl ymroddedig i genhadaeth Undeb Bedyddwyr Cymru. Mae'r gallu i siarad ac ysgrifennu Cymraeg a Saesneg cywir yn hanfodol. Ymunwch â ni yn ein hymrwymiad i wasanaethu cymunedau ar draws Cymru.

**Cyflog**: £29,681.57-£31,801.67 (pro rata)
**Oriau**: 21 awr yr wythnos (0.6)
Croesewir ceisiadau rhannu swydd
**Dyddiad Cau**: Dydd Llun, 7 Hydref 2025
**Dyddiad Cyfweld**: Dydd Mercher, 15 Hydref 2025
Am wybodaeth bellach cysyllter â'r Ysgrifennydd Cyffredinol, y Parchg Judith Morris
07872 824165 neu judith@ubc.cymru

# Encil y Weinidogaeth Iacháu, Medi 2025



Cynhaliwyd yr encil yng Ngholeg Trefeca o ddydd Mawrth i ddydd Gwener, 9–12 Medi. Fe'i cadeiriwyd gan y Parchedig Nerys Tudor sy'n gadeirydd Pwyllgor Iacháu'r Gymanfa Gyffredinol – ond mae'r gair 'llywyddu' yn rhoi camargraff o'r encil gwirioneddol. Mae'r rhai sy'n mynychu yn ei chael hi'n anffurfiol iawn mewn awyrgylch cariadus a heb unrhyw orfodaeth i gymryd rhan ym mhob sesiwn: ond fe wnaeth pawb!

Y thema oedd 'Tangnefedd' ac yn seiliedig ar yr adnod o Ioan 14: "Yr wyf yn gadael i chi dangnefedd; yr wyf yn rhoi i chi fy nhangnefedd fy hun. Nid fel y mae'r byd yn rhoi yr wyf i yn rhoi i chwi. Peidiwch â gadael i ddim gynhyrfu'ch calon, a pheidiwch ag ofni."

Dechreuodd pob diwrnod gyda gweddïau a daeth i ben gyda myfyrdod. Rhwng y rhain roedd astudiaethau Beiblaidd a grwpiau trafod, a chynhaliwyd llawer o sgwrsio a rhannu. Roedd amser hefyd i hamdden pan fanteisiodd rhai ar y cyfle i ymweld â'r Gelli Gandryll, eraill i ymweld â hen ffrindiau a rhai i ymlacio.

Daeth yr encil i ben fore Gwener gydag amser i rannu ac yna gwasanaeth cymun dan arweiniad y Parchedig Ddr Nerys Tudor, oedd hefyd yn cynnwys amser ar gyfer arddodiad dwylo.

Gwerthfawrogwyd yr encil gan bawb a fynychodd, a rhaid diolch i'r trefnwyr, i'r rhai a chwaraeodd eu rhan wrth arwain sesiynau ac i'r staff a'n hamgylchynodd ni i gyd â chynhesrwydd a gofal.

Mae Coleg Trefeca yn lleoliad gwych ar gyfer grwpiau fel hwn ac yn ei ffurf newydd yn cael ei werthfawrogi gan grwpiau seciwlar ac eglwysig sy'n treulio amser yno. Anogwch ein cynulleidfaoedd i wneud defnydd ohono.

*Mary Turnock*



# ‘O na byddai’n haf o hyd?’ Croeso nid casineb



Bu’n haf eithriadol o gynnes a sych, a braf fu cael hamdden i fwynhau tipyn ohono ar ôl Eisteddfod wych iawn yn Wrecsam a welodd ddathlu llawer o’r hyn sydd orau amdanom fel cenedl. Oni thorrai ein calonnau i gyd wrth i Tudur Hallam dderbyn ei anrhydeddu a’i gadeirio am ei awdl yn ystod ei salwch? Braf yw meddwl mai i’r rhai sydd yn llunio cerddi a llên a chân y mae ein cenedl yn cynnig ei hanrhydeddau uchaf. Caed croeso brwd i bawb yno, ac yn y gwasanaeth yn y Pafiliwn ar fore Sul cyntaf yr ŵyl, bu sôn am y rheiny sydd yn derbyn croeso yn yr ardal ar ôl eu dadleoli o’u gwledydd eu hunain. Rhoddwyd sylw gan Nan Powell-Davies hefyd yn ystod ei hanerchiad yn y gwasanaeth i’r croeso mae Iesu’n ei gynnig i’r rhai sydd ar y cyrion – yn ddisylw a di-sôn-amdanynt, sut y mae Iesu’n tynnu’r gwahanfuriau i lawr rhwng pobl a chenhedloedd a’i gilydd ac yn eu croesawu i fod yn un yn ei aberth mawr drostynt.

Ond, gyda’r tywydd braf a’r dyddiau hirion, fe gymerodd eraill eu cyfle yn yr Wyddgrug a mannau eraill yr haf hwn i godi muriau a dweud nad oedd croeso na lle i rai a geisiai loches yn ein plith rhag y grymoedd sy’n difa bywydau ac yn dwyn gobaith mewn cymaint o wledydd ledled ein byd. Cynhaliwyd gwrthdystiad mawr wrth gefn Capel Bethesda yn yr Wyddgrug yn erbyn sïon bod rhai o dramor yn cael eu cartrefu yn y fflatiau sydd wedi eu creu uwchben Canolfan Ambrose Lloyd wrth gefn y capel. Does dim croeso iddyn nhw na lle, medden nhw, a bu gweiddi ar iddyn nhw fynd yn ôl i’r mannau y daethon nhw ohonyn nhw – a hynny cyn i neb gyrraedd hyd yn oed!

Dangoswyd bod croeso a gobaith yn dal yn fyw wrth i rai fentro sefyll i fyny i’w casineb hiliol nhw a gwneud hynny dan faner mudiad newydd ‘Croeso nid Casineb’. Ond gwaith peryglus yw gwrthdystio yn erbyn pobl fel hyn sy’n cael eu chwipio i ymgynnull a’u dwyn i mewn o bob cwr i greu torf. Bydd yn dda gennym fel eglwys yn yr Wyddgrug gael ysgrifennu at ein holl gynrychiolwyr etholedig – ar gyngor y dref a’r sir ac yn seneddau Cymru a’r Deyrnas Unedig, i fynegi ein croeso i unrhyw gymdogion newydd a gawn fel capel a’n parodrwydd i ddangos hynny iddyn nhw fel y gwnaethom i nifer o rai eraill o bob man ar hyd y blynyddoedd. Mae’n resyn nad oes neb o’n harweinwyr wedi gweld yn dda i gondemnio’r hiliaeth a welwyd yn yr Wyddgrug ganol Awst. Roedd llai yno yn yr ail wrthdystiad yn niwedd Awst. Un o’r pethau a drechodd bob sôn am gasineb oedd clywed yr emyn ‘Calon Lân’ yn cael ei ganu gan y rhai a ddaeth yno i gynnig ‘Croeso nid Casineb’.

Diolch hefyd am waith yr holl eglwysi yn y dref yn gweddïo am gariad a chymod ac yn gweithredu i adlewyrchu croeso ein Harglwydd Iesu Grist i ninnau bob un.

Cofio am enwi ac agor adeilad Canolfan Ambrose Lloyd yr oedd Eirian Davies wrth iddo ganu ei gerdd ‘Rhyfedd o fyd’ yn niwedd y saithdegau pan oedd yn weinidog yma. Cofio am emyn arall ar y dôn ‘Wyddgrug’ gan Ambrose Lloyd a chofio am eiriau gobeithiol a gorfoleddus Dafydd Jones o Gaio, ‘Wele cawsom y Meseia’. Emyn sy’n garol gennym bellach, ond y buom yn ei ganu yn ein cymanfa ninnau ddechrau’r haf wrth inni gofio’r cyfansoddwr J. Ambrose Lloyd. Yn ei gerdd mae Eirian yn annog rhannu gobaith y newyddion da sydd gennym efo pawb sy’n defnyddio Canolfan Ambrose Lloyd Centre:

Agorwch ffenestri Bethesda
I gyfeiriad y morgrug meidrol
Sy’n sbecian o silff i silff
Am eu gwleddoedd
Yn yr archfarchnad –
Agorwch y ffenestr
A chenwch heddiw i’r Wyddgrug
Am wleddoedd Calfari ....
Am y Meseia a gawsom gynt
Yn Ffrind a Phrynwr dynol-ryw.

(J. Eirian Davies, *Cyfrol o Gerddi*, Gwasg Gee, 1985)

*Huw Powell-Davies*

# “Pwy sydd â’r hawl dros Gristnogaeth?”

Yr wythnos diwethaf gofynnwyd cwestiwn heriol mewn cyfarfod lle roeddwn i’n bresennol.

“Pwy sydd â’r hawl dros Gristnogaeth?”

Yn 2014 aeth aelodau o Britain First i fewn i fosgiau ar draws y Deyrnas Unedig er mwyn dosbarthu Beiblau oedd wedi’u cyhoeddi gan y fyddin.

Yn 2015 cyhoeddodd UKIP Faniffesto Gristnogol dan y teitl “Gwerthfawrogi ein Hetifeddiaeth Gristnogol”.

Yn ddiweddar ry’n ni wedi gweld protestwyr yn sefyll o flaen gwestai lle mae ceiswyr lloches a ffoaduriaid yn aros, a dros y penwythnos gwelwyd gorymdaith fawr yn Llundain yn cael ei harwain gan bobl fel Tommy Robinson.

Fel Cristion, yr hyn sy’n fy arswydo ac sy’n torri fy nghalon yw’r ffaith fod llawer o’r bobl hyn yn *defnyddio* Cristnogaeth.

“Iesu yw’r Brenin” oedd bonllef rhai o’r dyrfa ddydd Sadwrn. Arweiniwyd y dorf i weddïo Gweddi’r Arglwydd hyd yn oed, ac i ganu emynau hen a newydd.

“Pwy sydd â’r hawl dros Gristnogaeth?”

Amserol hefyd, oherwydd lai na 24 awr ar ôl i mi glywed y cwestiwn yn cael ei ofyn, yn drasig, roedd y dylanwadwr asgell dde Charlie Kirk wedi cael ei lofruddio.

“Pwy sydd â’r hawl dros Gristnogaeth?”

Mae angen mwy na dwy funud i ateb y fath gwestiwn, mi wn. Ond alla i gynnig un ateb syml, ac amlwg?

Wel, Iesu Grist ei hun.

Yr un a’n galwodd i fynd allan o’n ffordd i garu ein cymdogion a’n gelynion. Yr un sy’n herio’i ddilynwyr fod gwasanaethu’r “lleiaf pwysig” yr un fath â’i wasanaethu Ef.

*Cynan Llwyd*
(Darlledwyd fel ‘Munud i Feddwl’ ar Radio Cymru, 15 Medi 2025)

# Credo Nicea – Sesiwn Pump – Yr Eglwys ac Undeb (rhan 2)

**Diwygiwyd geiriad y Credo a gytunwyd yn Nicea (325 OC) yng Nghyngor Caergystennin yn 381 OC. Yn gyffredinol, y fersiwn hwn, Credo Nicea-Caergystennin, sydd wedi ei etifeddu gennym ar draws y canrifoedd, yw'r un a ddefnyddir gan y traddodiadau Cristnogol ar draws y byd ac sy'n sail i'r myfyrdodau sy'n dilyn.**

## De India

Yn ail, mae'r Credo yn delio ag ymrysonau sydd o gwmpas hyd heddiw. Lluniwyd y Credo yn ofalus gan Eglwys y bedwaredd ganrif er mwyn goresgyn heresïau a chynnig eglurder ar athrawiaeth Gristnogol, yn fwyaf arbennig ar natur Crist. Yn y cyd-destun presennol, lle mae gwahaniaethau diwinyddol yn dal i godi, mae'r Credo'n cynnig cyfeirnod er mwyn datrys anghydfod a chynnal cyfanrwydd athrawiaethol yn yr Eglwys.

Yn ogystal, cymhellir deialog a chydweithio ecwmenaidd ymhlith traddodiadau Cristnogol gwahanol gan Gredo Nicea. Wrth gadarnhau'r hyn a gredwn yn gyffredin, ond yn caniatáu amrywiaethau mewn athrawiaethau eilradd, mae'n cymell parch at ein gilydd a chydweithio rhwng gwahanol eglwysi. Yn ein cyfnod ni, daeth perthynas rhwng enwadau yn gynyddol bwysig, ac mae eglwysi'n wynebu heriau arwyddocaol o'r tu mewn ac o'r tu allan. Mae'r Credo yn cynnig iaith gyffredin ar gyfer deialog, a modd o hyrwyddo cymod yn y cyd-destun hwn. Yn ogystal, cynigir parhad hanesyddol gan Gredo Nicea, a chyswllt â'r Eglwys Fore. Drwy adrodd yr un geiriau â Christnogion ganrifoedd yn ôl caiff Cristnogion eu hatgoffa o'u lle yn stori ehangach yr iachawdwriaeth. Mae'r ymdeimlad hwn o barhad yn cryfhau rhwymau cymdeithas ymhlith y rhai sy'n credu ac yn atgyfnerthu eu hunaniaeth fel rhan o'r Eglwys fyd-eang ar draws y canrifoedd.

Yn olaf, deil Credo Nicea i fod yn berthnasol iawn parthed meithrin undeb yn yr Eglwys heddiw. Mae ei wirioneddau diwinyddol bythol, ei arwyddocâd hanesyddol a'i botensial ecwmenaidd yn offer anhepgor wrth hybu cynghanedd a chydweithio rhwng credinwyr ar draws ffiniau enwadol. Fel y gweddïodd Iesu am undeb yn Ioan 17, rydym ni fel Cristnogion yn dal i ffeindio'n ffordd drwy gymhlethdodau ein byd cyfnewidiol. Saif Credo Nicea fel arwyddbost o undeb, sy'n ein harwain yn ôl at wirioneddau hanfodol ein ffydd.

**Cwestiynau i fyfyrio arnynt**

1 Mae Cristnogion i gyd yn rhannu credoau creiddiol – beth yw'ch barn chi am y datganiad hwn? Beth feddyliwch chi yw'r credoau creiddiol?

2 Beth yw'r heriau arwyddocaol y mae'r Eglwys yn eu hwynebu ar hyn o bryd yn eich cyd-destun chi? Sut mae Credo Nicea yn ymateb iddynt, yn eich barn chi?

3 Ydych chi'n credu fod eich eglwys chi yn gyfrwng i uno eich cymuned: pa gamau ymarferol y gallech eu cymryd gyda golwg ar y fath uno?

**Gweddi**

- Gweddïwch dros y Cymundeb Anglicanaidd ar draws y byd – efallai yr hoffech weddïo'n benodol dros unrhyw ddolenni esgobaethol sydd gennych neu dros eglwysi rydych yn bartneriaid â nhw.
- Gweddïwch dros yr holl gredinwyr yn eich cymuned chi – y bydd credoau creiddiol yn eu huno.

## Taro'r Post

Annwyl Olygydd,

Wrth i syrcas Donald Trump ymweld â gwledydd Prydain, unwaith eto, gyda'r protestiadau disgwyliedig a'r sesiynau tynnu lluniau ffals, mae'n bwysig i ni beidio cael ein mesmereiddio gan y digwyddiad. Mae rhwysg a seremonïaeth yr achlysur yn tynnu sylw oddi ar unigolyn sydd wedi ei niweidio'n wael. Rhaid inni graffu tu hwnt i'r theatrig a herio hanfod y person sydd ym Mhrydain fel gwestai'r brenin Siarl.


Nid gweld nerth a wnawn, ond perfformiad gydol-oes sy'n gorchuddio gwacter dwys. Dyma ddyn yn ei flynyddoedd olaf sy'n ffrwyth tad a fu'n dominyddu, a meithrinwr seicopathig ym mherson Roy Cohn. Addysgwyd Donald Trump i feddwl bod anonestrwydd yn arf, creulondeb yn rhinwedd, a bod y dyhead enbyd am ganmoliaeth yn eilydd digonol i gariad, mae'n ymddangos na chafodd erioed. Mae ei drosolwg ar y byd o chwarae gêm greulon o fasnachu lle bydd dyn yn dominyddu neu'n cael ei ddominyddu yn adwaith batholegol, ac nid yn strategaeth wleidyddol.

Nid yw'r dedfrydau diweddar yn ei erbyn am dwyll neu ymosodiadau rhywiol yn eithriadau anarferol; maent yn benodau gydol oes o ymelwa ar draul eraill. Nid yw ei ganmoliaeth o bobl ryngwladol sy'n hiliol a threisgar yn gamgymeriad diplomataidd, ond yn uniaethiad gwirioneddol gyda'r sawl sy'n ymdebygu iddo yn ei ffordd o edrych ar y byd. Mae'n ddyn sydd wedi treulio oes gyfan yn adeiladu cofgolofn coegwych ohono'i hun, a sylweddoli ei fod yn garcharor i'w ddelwedd.

Tra'n gwrthwynebu ei wleidyddiaeth ddistrywgar a chasáu'r niwed mae'n ei achosi, dylem, mewn ffordd ryfedd, ddangos trueni tuag ato. Mae'n berson sydd felly yn hela cyfoeth, grym, a bonllef tyrfa i wella'r briwiau a gafodd fel plentyn na all unrhyw rym ei wella. Mae'n garcharor i'r hunllef i brofi ei hun i ysbryd ei dad a'r meithrinwr a gafodd yn Roy Cohn, yr un a ddysgodd iddo mai amod cael ei garu yw bod eraill yn ei ofni.

Mae ei fywyd yn aros fel stori: rhybudd bod hela cyfoeth a phŵer, byw heb gydymdeimlad, hygrededd a hunan-ymwybyddiaeth yn arwain, nid at fawredd, ond at ddiwedd bywyd gwag ac unig. Mae'n rhaid i ni ei wrthwynebu. Rhaid hefyd ei weld am yr hyn yw, sef enghraifft drasig ac nid arweinydd byd.

Yn ddidwyll,



Prif Weithredwr y Cygor ar Alcohol a Chyffuriau Eraill
www.recovery-council.org
Ffôn: 07796464045
E. wynford@recovery-council.org
16/09/2025

# Sefydlu'r Parchedig W. Bryn Williams yn Weinidog ar Ebeneser, y Ffôr



Dewi Owen Jones a Bryn Williams

Yn dilyn cais gan aelodau Ebeneser, y Ffôr, drwy'r blaenor T. Alun Williams, a chyda sêl bendith yr Henaduriaeth, bore Sul, 7 Medi, mewn Oedfa Undebol i'r Ofalaeth, sefydlwyd y Parchedig W. Bryn Williams yn weinidog ar yr eglwys.

Cawsom ein harwain i'r cywair cywir o addoliad gan y cyfeilydd medrus, Meurig Thomas, a fu hefyd cyfeilio ar biano ac organ drwy'r gwasanaeth cyfan.

Llywyddwyd y gwasanaeth gan Lywydd presennol yr Ofalaeth, Dewi Owen Jones, a wnaeth ei waith yn ei ffordd gynnil ac urddasol arferol.

Cyn i Thomas Alun Williams rannu gweddi i agor y gwasanaeth, estynnodd groeso i bawb ohonom. Cawsom ein hatgoffa gan Alun bod un o gyn-weinidogion y Ffôr, y Parchedig W. O. Roberts wedi symud oddi yno i Lanrug ar ddechrau'r 1960au, ac felly'n dod yn weinidog ar Bryn a'r teulu. Bu yntau'n weinidog ar Bryn drwy ei blentyndod a'i arddegau ac o dan ei arweiniad ef y daeth i sylweddoli mai adnabod Iesu Grist fel Gwaredwr ac Arglwydd oedd yr unig ffordd at Dduw, a'r unig ffordd i fyw'r bywyd llawn.

Ar ôl canu'r emyn cyntaf, 'Molwch Arglwydd nef y nefoedd', cafwyd darlleniad o'r Rhufeiniaid 10:8–17, gan Gwyneth Sol Owen a Daphne Jones, y naill yn darllen yn Gymraeg a'r llall yn Saesneg. Yna cyflwynodd Iola weddi ofalus gan ofyn bendith Duw ar y sefydlu.

Roedd defod y sefydlu dan ofal y Llywydd ac eglurodd Dewi, wrth ofyn y cwestiynau arferol i Weinidog wrth ei sefydlu, mai dyma'r weithred gyhoeddus oedd yn golygu bod Bryn yn addo unwaith yn rhagor i bregethu'r Efengyl, gweinyddu'r Sacramentau, cyflwyno addysg Gristnogol, bod yn fugail ar ei bobl yn ôl ei allu, a thystiolaethu hefyd i'r Efengyl mewn gair a gweithred, i'r rhai hynny sydd oddi allan i'r Eglwys.

Cafodd Bryn gyfle i ateb ac i ddweud y byddai, hyd eithaf ei allu a thrwy ras Duw, yn ymdrechu i'w cyflawni. Cyn gosod ei law ar Bryn a gweddïo cyflwynodd Dewi Bryn i bobl y Ffôr, a'r un pryd eu croesawu atynt i'r ofalaeth newydd.

Wedi'r sefydlu a chanu'r ail emyn, 'O'r fath gyfaill ydyw'r Iesu', estynnwyd croeso i'r Gweinidog newydd gan Catrin, a roddodd grynodeb o'r hyn oedd wedi digwydd ers dechrau'r flwyddyn gyda'r dyhead am eu gweld yn symud yn eu blaen fel gofalaeth newydd i dymor newydd ac yn gryfach o fod hefo'i gilydd. Cyflwynwyd cyfarchion ar ran yr Henaduriaeth gan Meinir Lloyd Jones, yr ysgrifennydd, yn ogystal â gweddïau'r aelodau dros yr ofalaeth newydd.

Yna, cafwyd gair gan Morgan, sef mab Bryn, a bu iddo grynhoi ei neges o gwmpas yr angen am bregethu Gair Duw yn syml ac yn eglur. Atgoffodd ei dad, fel gweinidog, gydag emosiwn, mai 'bugail bach' y 'Bugail Da ei Hun' ydoedd, ynghyd â phob gweinidog arall.

Tro Leah, gwraig Morgan, oedd hi wedyn i weddïo dros Bryn a'r ofalaeth newydd. Magwyd Leah ym Mangor, County Down, Gogledd Iwerddon. Fe gyfarfu'r ddau pan oeddent yn gyd-fyfyrwyr ym Mhrifysgol y Frenhines, Belfast. Gweddïodd Leah i ddechrau yn Gymraeg cyn troi i'r Saesneg a hynny yn acen brydferth County Down. Gweddi ac iddi eneiniad y nefoedd oedd gweddi Leah hefyd.

Cyn canu'r emyn olaf a chyhoeddi'r fendith hefo'n gilydd, cafodd Bryn yntau gyfle i ymateb i'r gwasanaeth. Darllenodd yr adnod o 1 Corinthiaid 3:1 'mai un sylfaen sy'n gwneud y tro i adeiladu arni, sef Iesu Grist'.

Os oedd Morgan dan emosiwn wrth bregethu, felly Bryn hefyd yn ei ymateb. Addawodd, fel yn yr ofalaeth cyn i'r Ffôr ymuno, 'drio gwneud ei orau i gerdded hefo'i bobl yn ffyddlon, i wrando'n ofalus arnynt, i ddysgu'r Gair yn ôl ei allu, a hynny hefo ffydd ac argyhoeddiad ac i'w gwasanaethu mor ofalus ac annwyl ag y gallai'. Gofynnodd am eu gweddïau, am eu partneriaeth a'u hamynedd wrth iddynt, yn y cyfnod newydd yma 'ddysgu be' ydy ewyllys Duw ar ein cyfer heddiw ac i geisio ffyrdd newydd i gyrraedd ein cymdeithas hefo'r newyddion da am Iesu Grist'.

Fe wnaeth gloi ei ymateb drwy gyflwyno'r emyn olaf, 'Crist a orchfygodd fore'r trydydd dydd, / cododd ein Gwaredwr, daeth o'r rhwymau'n rhydd'. Dyma'r newyddion da sydd gennym i bobl y Ffôr ac i weddill yr ofalaeth.

Yn dilyn y gwasanaeth galwodd Dewi arnom i aros ar ôl am baned ac i gymdeithasu hefo'n gilydd. Bu'r amser hwnnw'n felys ac yn gyfle da i ni gael blas o'r mwy a mwy o gymdeithasu sydd i ddod i ni eto.

Pob bendith ar yr ofalaeth newydd ym Mhwllheli ac i Bryn a'r teulu.

*Meinir Lloyd Jones*
*Ysgrifenyddes Henaduriaeth*
*Gorllewin Gwynedd*

# O'r galon

### Da yw Duw

'Diolchwch i'r ARGLWYDD, oherwydd da yw, ac y mae ei gariad hyd byth' (Salm 118:1)

### Beth yw ein cyffes?

Sawl un ohonom sy'n cofio'r adnod gyntaf i ni ei dysgu yn blentyn? Tybed ai '**Duw, cariad yw**' (1 Ioan 4:8,16) oedd hi? Does ryfedd iddi ddod bron yn gyffes ffydd ynddi ei hun. Ac efallai nad rhyfedd o beth i'n hoes gymryd y gyffes a'i throi o gwmpas i ddiffinio a chyffesu mai 'cariad yw ein duw'. Cam bychan wedyn yw dehongli cariad i siwtio'n hunain a gwneud duw yn ôl ein delw ni.

Beth welwn ni yn yr Hen Destament, fodd bynnag, er gwaethaf cyhuddiad ein hoes ni, yw mai eu cyffes hwy oedd: 'Diolchwch i'r ARGLWYDD, oherwydd da yw, ac y mae ei gariad hyd byth' (mae 'diolchwch' yma yn air sy'n golygu cyffesu ein diolch ar lafar).

Daw'r gyffes o hanes Solomon yn cysegru'r deml pan ddaeth cwmwl gogonaint yr Arglwydd i lawr: 'Ac fel yr oedd yr utganwyr a'r cantorion yn uno mewn mawl a chlod i'r ARGLWYDD ac yn seinio trwmpedau, symbalau ac offer cerdd er moliant iddo, gan ddweud, "Yn wir da yw, ac y mae ei gariad (ei drugaredd; BWM) hyd byth", llanwyd tŷ'r ARGLWYDD gan gwmwl' (2 Cronicl 5:13).

Fe sylwch fod cariad yn rhan o'r gyffes, ond mae'r ffocws ar ddaioni'r ARGLWYDD. Yn wir, mae'r cariad y cyfeirir ato yn ddisgrifiadol o'i ddaioni. 'Chesed' yw'r Hebraeg, cariad a thrugaredd diamod, dihaeddiant a gyfieithir yn drugaredd neu'n gariad gennym ni, ond yn Saesneg yn aml ceir 'loving kindness'.

### Priodoleddau Duw: daioni a chariad

Mae priodoleddau daioni a chariad o reidrwydd, felly, ynghlwm yn ei gilydd. A her i ni sy'n credu yw cadw'r gyffes yma'n fyw yn ein calon, ein hysbryd a'n deall, nid dim ond yn yr adegau da, ond yn y rhai tywyll hefyd. Dyma wers llyfr Job yn ei chrynswth, a datganiad Paul i'r Rhufeiniaid ym mhennod 8: nad oes dim all ein gwahanu oddi wrth gariad Duw, a'i fod yn gweithio'i ddaioni gyda'r rhai sy'n ei garu, drwyddynt, ac er eu mwyn.

A dyma'r daioni y mae ei Ysbryd am ei weithio ynom ni, sef mynegiant o'i berson a'i natur dda, nid dim ond bod yn neis.

### Nid oes neb da ond un, sef Duw

Fe'n hatgoffir o'r ddeialog rhwng Iesu a'r gŵr ifanc cyfoethog: 'Wrth iddo fynd i'w daith, rhedodd rhyw ddyn ato a phenlinio o'i flaen a gofyn iddo, "Athro da, beth a wnaf i etifeddu bywyd tragwyddol?" A dywedodd Iesu wrtho, "Pam yr wyt yn fy ngalw i yn dda? Nid oes neb da ond un, sef Duw"' (Marc 10:17–18).

Gellir darllen sialens Iesu iddo mewn sawl ffordd, ond ystyriwch lle y dechreuodd y sgwrs, gyda chwestiwn am ddaioni. Yn ogystal â'r galwad iddo roi'r cyfan o'i eiddo i'r tlodion a chanlyn Iesu, fe welwn fod yma alwad arall iddo yntau ymdebygu i'r Athro Da drwy wneud daioni.

### Halen a goleuni

Nid i'r gŵr ifanc yma yn unig y mae'r gorchymyn, ond i bawb, mor dlawd ag y maent yn yr ysbryd, sydd am ganlyn Iesu drwy ffydd: 'Felly boed i'ch goleuni chwithau lewyrchu gerbron eraill, er mwyn iddynt weld eich gweithredoedd da chwi a gogoneddu eich Tad, yr hwn sydd yn y nefoedd' (Mathew 5:16).

Mae gwaredu ein byd yn rhan o gynllun Duw, a'n bod ninnau'n byw bywyd sy'n dangos ac yn datgan ei ddaioni i'r cread oll. Sylwch faint o ffocws y Bregeth ar y Mynydd sydd ar arddangos ei briodoleddau, neu, os liciwch chi, ffrwyth yr Ysbryd ynom ni, gerbron y byd.

### Bywyd y mae Duw wedi ei drefnu inni o'r dechrau

Wrth ysgrifennu at gylch o eglwysi yn ardal Effesus mae Paul yn cyhoeddi'r un neges. Wedi olrhain rhyfeddod gwaith achubol Iesu a'r bywyd newydd y mae'n ein cynnwys ni ynddo yng Nghrist, trwy ras a ffydd, mae'n dangos fod pwrpas i'r cyfan. Y pwrpas yw dangos yn dragwyddol ei diriondeb i ni yng Nghrist (2:7) a'n galw ni, yn greadigaeth newydd ynddo i'w disgleirio gerbron y byd: 'Oherwydd ei waith ef ydym, wedi ein creu yng Nghrist Iesu i fywyd o weithredoedd da, bywyd y mae Duw wedi ei drefnu inni o'r dechrau' (Effesiaid 2:10).

*Hywel Rhys Edwards*
*Rhydaman*



Aelodau Clwb Sul Horeb, Penrhyn-coch, wedi mwynhau eu trip i Barc Fferm Ffantasi, Llanrhystud ym mis Gorffennaf

BBC radio cymru

***Caniadaeth y Cysegr***
**Sul, 28 Medi, am 7:30yb a 4:30yp**
Cymanfa Annibynwyr Gogledd-orllewin Myrddin o gapel Blaen-y-coed; arweinydd Nicki Roderick

***Oedfa Radio Cymru***
**Sul, 28 Medi, am 12:00yp**
Oedfa dan ofal Alwyn Daniels, Trefdraeth

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru